# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA
## COFNODION CYFARFOD EBRILL 2022

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fercher, 20fed o Ebrill, 2022** |
| **AMSER** | **6.30yh Cyfarfod misol y Cygor** |
| **LLEOLIAD** | **Festri Capel Rhotryfan** |
| **CADEIRYDD** | **Jason Hunt** |

| | |
|---|---|
| 1. | **CROESO** |
| | Methodd y Cadeirydd ymuno ar y noson oherwydd rhwystrau gwaith, gan nad oedd posib chwaith i'r Is-gadeirydd fynychu oherwydd diffyg cyswllt band eang, cytunodd **AWJ** gymryd y sedd. Croesawodd bawb i'r cyfarfod.<br><br>**<u>YN BRESENNOL HENO ROEDD:</u>**<br><br>Gwilym Thomas **(GT)**, Nerys Evans **(NE)**, Gwilym Williams **(GW)**, Huw Rowlands **(HR)**, Elin Evans **(EE)**, Alan Hughes **(AH)**, Aeron Jones **(AJ),** Michelle Williams **(MW)**, ac Gillian Thomas (Clerc). |
| 2. | **YMDDIHEURIADAU** |
| | Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Jason Hunt **(JH)**, Peter Roberts **(PR) a** Thom Ellis **(TE)**. |
| 3. | **DATGAN BUDDIANT** |
| | Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad. |
| 4. | **CADARNHAU COFNODION MAWRTH 2022** |
| | Cynigwyd y cofnodion y gywir gan GT gydag EE yn eilio a phawb yn cytuno. |
| 5. | **MATERION YN CODI** |
| | **a) <u>MATERION GORFODAETH</u>**<br><br><u>Ceirnog Belan, Rhos Isaf –</u> Cais cynllunio yn annilys ers 2019<br><u>Penceunant, Rhosisaf –</u> Dim cais cynllunio dilys<br><br>Y ddau fater bellach wedi eu gyrru ymlaen i'r Adran Gorfodaeth. |


*Clerc Cyngor Cymuned Llanwda Community Council Clerk* *Ffon / Tel: 07979 438 307*
*1 Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd LL54 7HP* *E.bost / E.mail: clercllanwnda@yahoo.co.uk*

**b) CHWAREL FOEL TRYFAN C21/0721/17/AC**

Yn dilyn gwybodaeth oedd wedi ei dderbyn bod y cais cynllunio uchod wedi ei gytuno gan Gyngor Gwynedd I ganiatáu cynyddu'r allbwn cyffredinol o 5 i 9 llwyth y dydd yn barhaol gofynnwyd i'r clerc wneud ymholiadau pam.

Derbyniwyd cadarnhad gan Swyddog o'r Adran Gynllunio nad oedd gohebiaeth wedi ei yrru i'r clerc. Cytunodd yr aelodau nad oedd eu hymateb yn ddigonol chwaith yn eu bodloni. Adroddodd AWJ dyllant yn gyfreithiol wedi cysylltu gan fod pwrpas y cais yn rhannol yw defnyddio lonydd Cymuned Llanwnda. Cytunodd AWJ osod cwyn gyda'r adran.

**c) AEL Y BRYN, RHOSGADFAN - APÊL CYNLLUNIO**

Gyrrwyd sylwadau'r Cyngor ymlaen i'r Arolygwyr Cynllunio, ni dderbyniwyd unrhyw adborth.

**d) GT - TWLL AR Y FFORDD GER SGWÂR RHOSISAF GER BRON Y CAPEL**

Gyrrwyd y gwyn ymlaen ar wefan y Cyngor Sir – derbyniwyd ymateb bod y swyddogion wedi bod allan yn asesu'r broblem. Nid yw'r mater yn cael ei ystyried fel un brys, ond mae trefniadau mewn lle i wneud y gwaith pan fydd adnodd ar gael.

**e) GT - TWMPATHAU CYFLYMDER RHOSTRYFAN**

Angen eu hatgyweirio - y clerc i ail adrodd i'r Cyngor Sir

**f) GW – DWR YN CASGLU**

Adroddodd GW bod dŵr yn casglu rhwng Mynwent Cefnfaes a Rhwngddwyryd Rhosisaf - Y clerc i ail adrodd i'r Cyngor Sir

**g) LLWYBR HEB YSTYR - STAD GWÊL Y FOEL, DINAS**

Gyrrwyd cais am wybodaeth ymlaen I Huw Evans (Adra), derbyniwyd ymateb

Bod y llwybr yn rhywbeth sydd wedi bod yn orfodol i Adra ei wneud i gydymffurfio gyda'r -

a) Hawl cynllunio (Adran Cynllunio)
b) Cytundeb adran 38 mabwysiadu ffordd y stad. (Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd)

Mae dyluniad ffordd y stad newydd yn cynnwys y fynedfa newydd wedi gorfod cael ei wneud o dan oruchwyliaeth yr Adran Briffyrdd.

Yr Adran Briffyrdd sydd felly wedi gorfodi adeiladu'r llwybr yma er mwyn creu'r "visibility splays" priodol fyny ffordd tuag at Rosgadfan.

Mae hyn yn creu'r mannau gweledol priodol i alluogi pobl ddod allan o'r stad newydd yn saff.

Gobeithiodd bod y wybodaeth yn esbonio mae rhywbeth statudol sydd rhaid ei wneud fel rhan o'r broses mabwysiadu ffordd stadau o dan gytundeb adran 38 Cyngor Gwynedd yw hyn. Ni dderbyniwyd sylwadau pellach.

**h) GVT - STAD GWÊL Y FOEL - TRYDAN**

Trafodwyd yn y cyfarfod diwethaf diffyg darpariaeth trydan i'r stad a gofynnwyd i'r clerc wneud ymholiadau am y rhwystrau. Derbyniwyd ymateb gan Huw Evans (Adra) -

Bod diffyg Scottish Power Energy Networks i gysylltu trydan i'r safle wedi bod yn siomedigaeth fawr i Adra a'r datblygwr Beech. Pe tai Scottish Power wedi darparu cysylltiad yn briodol fydda'r safle wedi cwblhau ers canol Chwefror.

Mae'r oedi cyd i wneud efo materion cyfreithiol 3ydd parti rhwng perchennog cae gyferbyn datblygiad a Scottish Power. Mae angen cael hawlfraint statudol mewn lle cyn i'r gwaith gychwyn o safbwynt Scottish Power oherwydd mae'r cebl trydan yn croesi tir y ffarmwr. "Easement" yw'r term Saesneg.

Bu i'r datblygwr sef cwmni Beech dalu Scottish Power am y gwaith cysylltu dol yn fis Mai 2021 !!

Y ddealltwriaeth gan Scottish Power yw bod yr hawlfraint gyfreithiol bellach yn ei le ond bydd nifer o wythnosau hyd nes bydd y gwaith yn cael ei raglenni i mewn.

Bydd y Rheolydd Prosiect yn gadael i dîm gosod Adra wybod cyn gynted bydd dyddiad pendant er mwyn pasio ymlaen y neges i'r darpar breswylwyr.

Llofnodwyd gan ……………………………………………………………………. Dyddiad ………………………………………………………….

| | |
|---|---|
| | Diolchodd yr aelodau am y wybodaeth a chynigwyd sylwadau pellach sef:<br>• A fydd Adra yn cynnig iawn dal i'r darpar breswylwyr am storio eu dodrefn<br>• A fydd modd storio eu dodrefn a charpedi ar y safle<br>• Oes posib lleoli generadur ar y safle am y cyfamser<br><br>**i) MYNWENT HERMON**<br>Trafodwyd cais Bwyllgor y Fynwent i'r Cyngor Cymuned ei mabwysiadu ymhellach. Cysidrwyd sylwadau cafwyd eu derbyn ac oblygiadau fydd bwrw blaen yn golygu i'r Cyngor.<br>Cytunwyd nad oedd yn fuddiol i'r Cyngor fwrw blaen ymhellach. Yn hytrach cytunwyd i alluogi'r Pwyllgor drwy hysbysebu ar eu rhan os bydd angen ar wefan a thudalen y Cyngor am gefnogwyr ac ymgeiswyr i ymuno a'r Pwyllgor. |
| 6. | **MATERION MISOL** |
| | **a) <u>CEISIADAU AM NAWDD</u>**<br>Cytunwyd gan fod cyn lleied o geisiadau wedi ei derbyn er gwaethaf eu hysbysebu ymestyn y cyfnod derbyn am fis arall. Y clerc i'w hail hysbysebu.<br><br>**b) <u>CYTUNDEBAU'R LLWYBRAU / CYSODFANNAU / CAEAU CHWARAE / MYNWENT CEFNFAES</u>**<br>Rhoddwyd ystyriaeth i dendrau oedd wedi ei derbyn i baratoi gwaith cynnal a chadw ar yr uchod am y cyfnod 01.05.22 - 20.04.25.<br><br>Cytunwyd ar lwyddiannau fel y canlyn:<br>Llwybrau'r Cyngor - Wyn Williams - £4,988.00 (blynyddol) TE yn cynnig gydag EE yn eilio<br>Cysodfannau - Ifan Williams - £700,00 + TAW (blynyddol) EE yn cynnig gyda GT yn eilio<br>Caeau Chwarae – Ifan Williams - £500.00 + TAW (blynyddol) EE yn cynnig a GT yn eilio<br>Mynwent Cefnfaes – Ifan Williams - £1,820.00 + TAW (blynyddol) EE yn cynnig a GW yn eilio<br><br>**c) <u>CYSGODFA RHOSGADFAN</u>**<br>Cymeradwywyd y wybodaeth bod y gwaith atgyweirio bellach wedi ei gwblhau ar y gysgodfa. Disgwylir i'r yswirwyr gyfiawnhau iawndal llai £100 excess yn fuan.<br><br>**d) <u>MYNWENT CEFNFAES</u>**<br><br>**i. <u>TYRCHOD</u>**<br>Rhannodd AMJ gwyn am dyrchod dear yn ail godi yn y fynwent oedd wedi ei dderbyn gan un o'r trigolion – Y clerc i ail gyflogi Swyddog trin pla.<br><br>**ii. <u>BINIAU</u>**<br>Derbyniwyd gwyn am y bin yn gorlenwi yn gyson yn y Fynwent - Rhoddwyd ystyriaeth i gostau a chytunwyd gofyn i'r Cyngor Sir am fin brown ychwanegol - y clerc i weithredu<br><br>**iii. <u>NE - POLISÏAU'R FYNWENT</u>**<br>Gofynnodd NE am adborth y Cyngor am fater sensitif parthed plannu coed byw ar feddi ym Mynwent Cefnfaes. Nodwyd bod coeden wedi ei phlannu yn ddiweddar ar fedd newydd. Cytunodd yr aelodau bod hyn yn groes i bolisïau ac asesiad risg y Fynwent a bydd yn debygol o greu rhwystr i sefydlu carreg yn y dyfodol. Y clerc i hysbysebu'r Ymgymerwr.<br><br>**e) <u>LLWYBR BRYN GWYN</u>**<br>Adroddodd y clerc bod y gwaith bellach wedi cael ei gwblhau gan DH ac anfoneb wedi ei ddarparu gyda chost ychwanegol o £220.00 i wared â'r hen beipiau. |

Llofnodwyd gan ………………………………………………………………….. Dyddiad ………………………………………………………….

| | |
|---|---|
| | Derbyniwyd addasiad i amcan bris parthed ail leoli ffens yn y maes parcio ger Ysgol Rhostryfan am £1,920.00 inc. VAT. Roedd hyn yn dilyn chwyddiant i bris archebu coed.<br>Derbyniwyd pryderon gan JH ac AH. Nodwyd bod y gwaith wedi ei rannu i sawl rhan yn yr amcangyfrif gyda dim ond un rhan wedi ei gytuno i'w chychwyn y tro hwn. I berwyl hyn gofynnwyd i'r clerc drefnu cyfarfod gyda GW AH ac DH ar y safle i drafod y gwaith ychwanegol.<br>Cynigiodd GT oherwydd natur y llwybr, bydd yn fuddiol i'r Cyngor sefydlu 2 arwydd dwy ieithol yn hysbysebu nad yw'r Cyngor yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw niwed personol nac eiddo wrth ei ddefnyddio. Cytunodd yr aelodau. Y clerc i wneud ymholiadau.<br><br>**f) <u>ETHOLIADAU CYNGOR CYMUNED</u>**<br>Adroddodd y clerc bod yr ymgeiswyr canlynol wedi ei hysbysebu'n llwyddiannus ar wefan y Cyngor Sir.<br><br>**<u>RHOSTRYFAN –</u>** NE, JH, GW<br>**<u>DINAS –</u>** HR.<br>**<u>RHOSGADFAN –</u>** AMJ, GVT, MW.<br><br>Oni bai i'r Cyngor Sir dderbyn unrhyw wrthwynebiad erbyn y 5ed o Fai bydd eu hetholiad yn llwyddiannus. Bydd posib wedi'r canlyniadau hyn symud ymlaen i gyfethol ar gyfer y seddi gwag.<br>Oherwydd diffyg oedd rhai o'r aelodau wedi wynebu wrth gyflwyno gofynnwyd i'r clerc gysylltu â'r adran Etholiadau I ofyn am welliant i'r ddarpariaeth a'r broses cofrestru yn y dyfodol.<br><br>**g) <u>REF 3282401 - GORCHYMYN ADDASU CYNGOR GWYNEDD (LLWYBR TROED RHIF 161 YNG NGHYMUNED LLANWNDA) 2021</u>**<br>Derbyniwyd hysbyseb gan PCAC PEDW am wrthwynebiad pellach i'r gorchymyn gan un o'r trigolion. Trafodwyd cynnwys ei wrthwynebiad a chytunodd yr aelodau bod rhan o'r cynnwys yn anwiredd. Y clerc a NE i ddylunio ymateb a thystiolaeth erbyn y 9fed o Fai 2022.<br><br>**h) <u>REILIAU CAE CHWARAE RHOSGADFAN</u>**<br>Cynhaliwyd cyfarfod gyda GVT ac Ian Morgan CG ar safle'r Cae Chwarae yn ddiweddar - cytunodd IM bydd modd i'r Cyngor Sir ddarparu'r gwaith a gosod rheiliau tebyg i'r rhai gyferbyn a'r ysgol. Bydd yn trefnu gyda'r clerc yn y dyfodol agos. Nid oedd y clerc wedi derbyn adborth pellach parthed amcan bris hyd yn hyn. Y clerc i anfon i'w atgoffa. |
| 7. | **MATERION CYNLLUNIO** |
| 8. | **a) <u>RHIF CAIS/APP REF: C22/0331/24/DT -</u>**<br>Tŷ Mawr, Saron, Caernarfon, Gwynedd, LL54 5UH - **Dilyn a Darganfod**<br>Newidiadau mewnol ac allanol, gan gynnwys ailosod ffenestri a drysau yn Nhŷ Mawr, Saron.<br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau nac gwrthwynebiad<br><br>**b) <u>RHIF CAIS/APP REF: C22/0343/24/LL –</u>**<br>Glanrafon, Llandwrog, Caernarfon, Gwynedd, LL54 5TG - **Dilyn a Darganfod**<br>Ymestyn y cwrtil preswyl presennol a disodli'r garafán bresennol gyda chartref symudol arno.<br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau nac gwrthwynebiad<br><br>**c) <u>RHIF CAIS/APP REF: C22/0157/24/DA –</u>**<br>26-29 Fron Deg, Rhostryfan, Caernarfon, LL54 7AZ - **Dilyn a Darganfod**<br>1) Newid gweddlun cefn i osod drws plyg 3m o led yn lle ffenestr.<br>2) Newid gweddlun cefn i osod drws yn lle ffenestr yn y garej<br>3) Newid gweddlun blaen i gynnwys paneli ffotofoltäig (PV) uwchben y garej a'r cyntedd.<br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau nac gwrthwynebiad |

Llofnodwyd gan ……………………………………………………………………. Dyddiad …………………………………………………………

| 9. | **MATERION ARIANNOL** |
|---|---|

**a) CYSONIAD**

Cymeradwywyd cysoniad terfynol 2021 - 2022 a chysoniad 2022 -2023. Cynigwyd yn gywir gan gydag yn eilio a phawb yn cytuno.

**1. CYSONIAD 2021/22**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **CYFRIF CYFREDOL** | **28/03/2021** | | **£ 8,576.70** |
| **CYFRIF CYNILO** | **28/03/2021** | | **£ 44,497.15** |
| **GWARGED** | **2021 / 2022** | | **£ 17,458.46** |
| | | **CYFANSWM** | **£ 70,532.31** |

**I GYTUNO A DATGANIADAU'R BANC**

| | | | |
|---|---|---|---|
| - | | | - |
| **CYFRIF CYFREDOL** | **28/03/22** | | **£ 9,321.80** |
| **CYFRIF CYNILO** | **28/03/22** | | **£ 63,343.51** |
| | | **CYFANSWM** | **£ 72,665.31** |

**LLAI TALIADAU HEB YMDDANGOS AR DDATGANIADAU'R BANC**

| **Dyddiad** | | **Rhif :-** | **Swm :-** |
|---|---|---|---|
| 19.01.22 | Atgyweirio cysgodfa Rhosgadfan | 101639 | £1,571.00 |
| 16.03.22 | Aelodaeth Un Llais Cymru | 101642 | £322.00 |
| 16.03.22 | Ôl dal cyflog y clerc | 101643 | £ 240.00 |
| | | **CYFANSWM** | **£ 2,133.00** |
| **CYFANSWM CYWIR Y CYFRIFON BANC FELLY** | | | **£ 70,532.31** |

**2. CYSONIAD EBRILL 2022**

| | | |
|---|---|---|
| **CYFRIF CYFREDOL** | **28/03/2022** | **£ 9,321.80** |
| **CYFRIF CYNILO** | **28/03/2022** | **£ 63,343.51** |
| **GWARGED** | **2022 / 2023** | **-£ 6,878.30** |
| | | **£ 63,654.01** |



*Clerc Cygor Cymuned Llanwda Community Council Clerk* *Ffon / Tel: 07979 438 307*
*1 Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd LL54 7HP* *E.bost / E.mail: clercllanwnda@yahoo.co.uk*

**I GYTUNO A DATGANIADAU'R BANC**

| | | |
|---|---|---|
| **CYFRIF CYFREDOL** | **28/03/22** | **£ 9,321.80** |
| **CYFRIF CYNILO** | **28/03/22** | **£ 63,343.51** |
| | | **£ 72,665.31** |

**LLAI TALIADAU HEB YMDDANGOS AR DDATGANIADAU'R BANC**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 19.01.22 | Atgyweirio cysgodfa Rhosgadfan | 101639 | £ 1,571.00 |
| 16.03.22 | Aelodaeth Un Llais Cymru | 101642 | £ 322.00 |
| 16.03.22 | Ôl dal cyflog y clerc | 101643 | £ 240.00 |
| | | | **£ 2,133.00** |

**LLAI SIECIAU I'W CYMERADWYO**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 20.04.22 | Cyflog a threuliau clerc | **101644** | £ 606.50 |
| 20.04.22 | D. Humphreys | **101645** | £ 2,712.00 |
| 20.04.22 | Idris Jones | **101647** | £ 2,056.80 |
| 20.04.22 | Wyn Williams | **101658** | £ 653.00 |
| 20.04.22 | Cylch Meithrin Dinas | **101649** | £150.00 |
| 20.04.22 | Theatr Bara Caws | **101650** | £200.00 |
| 20.04.22 | Papur Bro Lleu | **101651** | £400.00 |
| 20.04.22 | Petty cash | **101652** | £100.00 |
| | | | **£ 6,878.30** |

**CYFANSWM CYWIR Y CYFRIFON FELLY** **£ 63,654.01**

## 10. GOHEBIAETH

a) **YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS - ANGHENION TAI / APÊL AM WYBODAETH – TAI GWEIGION**
Rhannwyd y wybodaeth ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau

b) **PARATOI A CHYHOEDDI CYFRIFON ARIANNOL STATUDOL AR GYFER 2021-22**
Rhannwyd y wybodaeth ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau

c) **HUW EVANS - STAD GWÊL Y FOEL DINAS - LLWYBR –** Gweler 5 (f)

d) **HUW EVANS - STAD GWÊL Y FOEL TRYDAN -** Gweler 5 (g)


*Clerc Cygnor Cymuned Llanwda Community Council Clerk* *Ffon / Tel: 07979 438 307*
*1 Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd LL54 7HP* *E.bost / E.mail: clercllanwnda@yahoo.co.uk*

| | |
|---|---|
| | e) **<u>CAIS AM GYNRYCHIOLAETH O'R CYNGOR – GWELEDIGAETH CANOLFAN LLEU - NEUADD GOFFA PENYGROES 6:00YH-8:00 YH DYDD MERCHER 27 EBRILL 2022</u>**<br>Cytunodd NE fynychu fel cynrychiolaeth y Cyngor - y clerc i yrru hysbysiad ymlaen |
| 11. | **MATERION LLEOL / AELODAU** |
| | **a) <u>AH - MEINCIAU STESION RHOSTRYFAN</u>**<br>Adroddodd AH am gyflwr difrifol y meinciau, nodwyd eu bod bellach wedi pydru gormod i'w trwsio. Gofynnwyd I'r clerc wneud ymholiadau ar gostau meinciau trymion i'w hadnewid.<br><br>**b) <u>AH - BAGIA COCH SBWRIEL WEDI EU GADAEL YM MAES PARCIO ROSTRYFAN.</u>**<br>Y clerc i adrodd y gwyn I Gyngor Gwynedd<br><br>**c) <u>AH GÔR YRRU LON BECWS RHOSTRYFAN</u>**<br>Gwirfoddolodd AWJ drafod y mater gyda Chwnstabl lleol<br><br>**d) <u>GT – ARWYDD CYFLYMDER ELECTRONIG RHWNG RHOSTRYFAN A RHOSGADFAN</u>**<br>Y clerc i adrodd y gwyn I Gyngor Gwynedd<br><br>**e) <u>HR – TWMPATHAU CYFLYMDER SARON</u>**<br>Adroddodd HR bod y Cyngor yn flaenorol wedi derbyn cytundeb gan Steffan Jones fydd ei adran yn paratoi asesiad gyda phwrpas i ychwanegu twmpathau cyflymder ar gyfer gwarchod plant syn yn mynd a dod yn y caechwarae. Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth o ddyddiad cychwyn y gwaith ac nid yw'r gwaith wedi ei baratoi. Y clerc i ofyn iddo am adborth.<br><br>**f) <u>EE - CYFLWR Y GYLCHFAN YN FINEGR</u>**<br>Derbyniwyd cwynion pellach gan NE nad oedd unrhyw waith i atgyweirio'r gylchfa'r wedi ei gynnal er gwaethaf cwynion y clerc ac AWJ. Cytunodd AWJ ohebu ymhellach gyda Jones Bros.<br><br>**g) <u>EE - BINIAU SBWRIEL LLANWNDA</u>**<br>Ail adroddodd EE am gyflwr gwarthus y biniau ger yr Hen Bost yn Llanwnda a ger y Stesion yn Ninas. Nodwyd hefyd nid oedd biniau ychwanegol wedi ei derbyn yn dilyn ei chais blaenorol. Adroddodd y clerc ei bod wedi cysylltu â Peter Simpson yn adrodd ei chwyn a gofyn am finiau ychwanegol yn y Ward, nid yn unig ger y llwybr cerdded. Cytunodd y clerc osod y gwyn ar hunan wasanaeth y Cyngor Sir.<br><br>**h) <u>NE – CYFLWR Y FFENS WRTH Y CWT YN FYNWENT CEFNFAES</u>**<br>Adroddodd NE bod y ffens wedi dirywio yn ofnadwy – gwirfoddolodd TE gael golwg arno<br><br>**i) <u>CAER GORS</u>**<br>Y clerc i gysylltu â CHADW I ofyn am raglen ar gyfer yr adeilad |
| 12. | **CYFARFOD NESAF Y CYNGOR** |
| | Cyfarfod arbennig i drafod canlyniadau Etholiadau Cyngor Cymuned - Amser I'w drefnu<br>Cyfarfod misol y Cyngor 18 o Fai, 2022 – Festri Capel Rhostryfan |

Llofnodwyd gan ………………………………………………………………….. Dyddiad …………………………………………………………